

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN
ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICES BOARD

DYDD LLUN, 8fed o IONAWR 2018

COFNODION

Presennol	
Enw	Sefydliad
Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Cadeirydd y Bwrdd
Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Llinos Medi	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Dyfrig Siencyn	Cyngor Gwynedd - Is-Gadeirydd y Bwrdd
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Shân Williams	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Richie Green	Heddlu Gogledd Cymru
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ffrancon Williams	Cartrefi Cymunedol Gwynedd - ar ran y sector dai
Emyr Williams	Parc Cenedlaethol Eryri
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor

Ymddiheuriadau	
Morag Olsen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Simon Smith	Gwasanaetha Tân ac Achub – Shân Williams yn dirprwyo
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru – Richie Green yn dirprwyo
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Sian Purcell	Medrwn Môn
Ann Griffiths	Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu

Yn Mynychu	
Llio Johnson	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Elin Mirain Jones	Cyngor Gwynedd
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd
Elizabeth Woodcock	Myfyriwr PhD
Huw Williams	Cyngor Gwynedd
Jane	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

1. Croeso

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau.

2. Cofnodion cyfarfod 4 Hydref 2017 a'r gweithdy 6 Tachwedd 2017.

Cyflwynwyd y cofnodion a derbyniwyd hwy fel cofnod cywir o'r cyfarfod ar y 4^{ydd} o Hydref yn dilyn cywiro dau air yn y Saesneg.

Gweithdy - nodwyd gan Emyr Williams fod angen i'r nodiadau fod yn fwy clir nad oedd cytundeb pendant ynglŷn â'r blaenoriaethau, yn enwedig yn y maes amgylcheddol. Mae angen adlewyrchu hyn yn y nodiadau.

3. Materion yn codi

Dim

4. Strategaeth 10 mlynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rhannwyd gwybodaeth ynglŷn â strategaeth y Bwrdd Iechyd - mae yn gynllun strategol lefel uchel gyda chynllun gweithredu 3 mlynedd yn cefnogi. Mae dealltwriaeth glir fod angen i wasanaethau fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Hefyd mae angen cydnabod a datrys y problemau o ran y gweithlu a'r adeiladau. Cafwyd gwybodaeth hefyd ynglŷn â phrosiectau penodol megis:

- Llwyddiant yr adran canser ym Mangor
- Diwylliant 'Beth sydd orau i bobl'
- Gwaith ymgysylltu gyda rhai sydd wedi cael strôc
- Orthopedics - oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio mae mwy o alw e.e. rhai pobl yn cael ail driniaeth ar eu clun
- Recriwtio –mwy o lwyddiant yng Ngwynedd ar hyn o bryd

Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

- Mae angen sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydweithio ar y gwaith ataliol hefyd
- Mae angen cofio am y gwaith sydd yn digwydd o fewn y Brifysgol o ran datblygu meddygol e.e. gordewdra plant
- Nodwyd siom nad oedd papur wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd
- Nid oedd Gwynne Jones yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau gyda'r Cyngor wrth ddatblygu'r strategaeth yma. Roedd ymdeimlad gwahanol iawn i'r strategaeth Iechyd Meddwl lle'r oedd gwir cyd-weithio wedi bod ar ddatblygu'r gwaith.

Ymddiheurwyd nad oedd papur penodol ar gyfer y cyfarfod yma. Mae llyfryn wedi ei gylchredeg ac mae nifer o weithgareddau ymgysylltu wedi digwydd yn cynnwys gyda'r trydydd sector.

Cytunwyd fod angen sicrhau bod y strategaeth yma yn cael y sylw cywir o fewn yr awdurdodau lleol. Cynigwyd fod y Bwrdd Gofal Integredig yn ffordd ymlaen - gellir cydweithio ar hyn yno.

Cytunwyd hefyd fod angen codi hyn yng nghyfarfod y Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd gydag Arweinyddion a Phrif Weithredwyr yr awdurdodau lleol.

Mae angen yma hefyd drafodaeth strategol ynglŷn â chyflawni rhanbarthol a chyflawni lleol - mae angen bod yn glir am beth sydd yn digwydd yn rhanbarthol, is-rhanbarthol ac yn lleol.

Diolchwyd i Jane am ei hamser a'i gwaith.

5. Effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau – Sian Williams & Huw Williams

Cafwyd cyflwyniad gan Sian a Huw yn amlinellu effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau. Yn rhan gyntaf o'r cyflwyniad trafodwyd cymunedau yn gyffredinol gan gynnwys:

- Cynnydd mewn stormydd haf, llifogydd lleol
- Angen cydnabod risg i lawer o afonydd lleol - Bontnewydd, Felinheli, Llangefni, Dwyran
- Risg pennaf yw marwolaeth oherwydd llifogydd
- Mae effaith ar iechyd meddwl yn enfawr

Yn ail ran y cyflwyniad cafwyd amlinelliad o'r ffactorau sydd yn effeithio cymuned Fairbourne yn benodol

- Mae gwarchodaeth ar hyn o bryd drwy asedau CNC
- Mwyafrif o'r boblogaeth dros 50 oed
- Lefel dŵr daear a môr yn uchel - lefel mor yn aml yn uwch na'r tir
- Lefel môr yn codi 1 metr bob 100 mlynedd, gall chwarter hyn fod yn gatastroffig i Fairbourne
- Mae Bwrdd aml-asiantaethol yn mynd i'r afael a chodi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd ayyb.
- Posibilrwydd y bydd Fairbourne yn dod i ben mewn 36 mlynedd neu ynghynt os oes storm fawr

Gofynnwyd i'r BGC fod yn Fwrdd Arweiniol ar gyfer y gwaith yma, mae angen gosod cyfeiriad strategol lefel uchel ar nifer o feysydd fel ail-leoli, effaith hyn ar dlodi ayyb.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cyflwyniad ac effaith newid hinsawdd ar gymunedau Gwynedd a Môn.

Gofynnodd Cyng. Dyfrig ap Siencyn am fap o Wynedd a Môn sydd yn dangos pa ardaloedd sydd o dan risg o ddiflannu fel canlyniad i newid hinsawdd dros y blynyddoedd - cytunwyd i baratoi hyn ar gyfer y Bwrdd.

Cwestiynwyd gan nifer o aelodau beth fyddai rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hyn - gan ei fod yn broblem genedlaethol mae angen arweiniad lefel uwch.

Gofynnwyd felly i Lywodraeth Cymru gymryd rôl arweiniol oherwydd graddfa'r broblem - nid mater i Wynedd a Môn yn unig yw hyn - mae angen arweiniad cenedlaethol a phenderfyniadau hir dymor gan y Llywodraeth.

Trafodwyd fod y Llywodraeth yn gweld hyn fel problem leol a bod problem pontio rhwng y gwaith lleol a'r cydweithio cenedlaethol dan arweiniad y Llywodraeth. Mae angen cysondeb a chydweithio ar draws y cymunedau sydd yn cael eu heffeithio trwy Gymru.

Codwyd y rhwystr o awdurdodau lleol yn gweithredu yn y maes gan y Cyng. Llinos Medi oherwydd diffyg capasiti a deddfwriaeth.

Cynigwyd bod y Bwrdd yn anfon llythyr i Lywodraeth Cymru yn datgan pryder am y diffyg arweiniad cenedlaethol yn y maes yma. Cytunwyd i weithredu ar hyn.

6. Cynllun Llesiant Drafft

Cyflwynwyd y Cynllun Llesiant Drafft i'r aelodau gan Llio Johnson. Esboniodd ei bod wedi newid y drafft cychwynnol wedi derbyn sylwadau gan yr aelodau - esboniodd nad oedd wedi cynnwys yr holl sylwadau unigol a dderbyniwyd oherwydd yr amserlen ac fe fyddai'r sylwadau hyn yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori statudol.

Nodwyd consyrn Emyr Williams nad oedd y cynllun yn cynnwys digon am werth yr amgylchedd i economi'r ardal a bod angen cryfhau hyn yn y cynllun terfynol. Cytunwyd y byddai Emyr Williams yn anfon geirfa benodol i'w gynnwys.

Mynegodd Siobhan Adams ei siom nad oedd sylwadau tîm Iechyd Cyhoeddus wedi eu cynnwys er ei bod yn deall y rhesymau pam. Mae angen cryfhau'r agweddau o gwmpas yr elfen plant a theuluoedd. Bydd angen sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun terfynol.

Cytunwyd ar rai mân newidiadau eraill a chytunwyd i ryddhau'r Cynllun ar gyfer ymgynghoriad statudol a fyddai yn rhedeg rhwng yr 8 Ionawr - 30 Mawrth.

7. Gohebiaeth

1. Llythyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a oedd yn gosod ei pholisi cenedlaethol = mynegwyd consyrn fod y Comisiynydd yn gosod blaenoriaethau cenedlaethol pan mai pwrpas y Ddeddf yw cael y Byrddau Cyhoeddus i osod blaenoriaethau lleol - mae angen osgoi'r diwylliant o drafodaethau a diffyg gweithredu.

Mynegodd Emyr Williams gonsyrn penodol nad oedd y Comisiynydd wedi cynnwys yr Iaith Gymraeg nag effaith Brexit.

Nodwyd fod yr aelodau yn deall mai blaenoriaethau cenedlaethol yw'r rhain ond mae angen sicrhau nad ydynt yn tynnu'r sylw o'r blaenoriaethau lleol sydd yn cael eu gosod.

2. Memorandwm rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Swyddfa Archwilio Cymru Derbyniwyd y memorandwm. Roedd consensws y byddai'r sefydliadau unigol yn gallu ymateb i hyn os y dymument ond nad yw i'w weld yn berthnasol i lesiant trigolion Gwynedd a Môn

8. Unrhyw fater arall

1. Cyflawni - cytunwyd na ddylid sefydlu unrhyw grwpiau cyflawni yn y meysydd blaenoriaeth os oes rhai yn y bodoli yn barod. Mae angen mapio'r grwpiau gweithredu sydd yn bodoli a sicrhau llywodraethiant cryf ar gyfer cefnogaeth y Bwrdd.
2. Cynigwyd cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda 'Heriau sydd yn wynebu'r sefydliadau unigol' - cafwyd cynnig ychwanegol i gynnwys 'cyfleon' . Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha werth fyddai hyn i'r Bwrdd a sicrhau teilyngdod ar gyfer materion sydd ddim yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Cytunwyd treialu cynnwys eitem sefydlog - 'Heriau a Chyfleon' a monitro gwerth y trafodaethau.
3. Elizabeth Woodcock - cyflwynodd Elizabeth prosiect mae wedi ei gychwyn ac yn rhoi gwahoddiad i'r aelodau fod yn rhan o'r trafodaethau ynglŷn â hyn. Cytunwyd i gylchredeg y wybodaeth i'r holl aelodau.

9. Dyddiad Cyfarfod nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 27 o Fawrth - lleoliad wedi ei gadarnhau yn dilyn y cyfarfod - bydd yn cael ei gynnal yn swyddfeydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd ym Mharc Menai.